

Amlinelliad o'r Cymhwyster TGAU Mathemateg a Rhifedd (Dyfarniad Dwbl) – Fersiwn Ymgynghori



Gwnaed i Gymru.
Yn barod i'r byd.

Cyflwyniad

Yn y ddogfen hon mae trosolwg ar lefel uchel o'r Cymhwyster CBAC TGAU Mathemateg a Rhifedd (Dyfarniad Dwbl) arfaethedig.

Mae'n seiliedig ar Feini Prawf Cymeradwyo Cymwysterau Cymru (mae adrannau allweddol wedi'u cynnwys yn Atodiad 1). **Rhaid** i'n cymhwyster ni fodloni'r gofynion hyn.

Bydd yr amlinelliad hwn o'r cymhwyster yn gweithio fel canllaw ar gyfer datblygu'r Fanyleb a'r Deunyddiau Asesu Enghreifftiol (DAE).

Trosolwg o'r Cymhwyster

Mae'r cymhwyster TGAU Mathemateg a Rhifedd (Dyfarniad Dwbl) yn cael ei lunio ar sail y pum hyfedredd rhyngddibynnol sy'n ffurfio egwyddorion cynnydd Cwricwlwm Cymru mewn perthynas â'r Maes Mathemateg a Rhifedd.¹ Bydd y cymhwyster yn:

- darparu cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu eu dealltwriaeth gysyniadol o gysyniadau a syniadau mathemategol
- darparu cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu dealltwriaeth o ystod eang o iaith fathemategol a defnyddio symbolau i ddangos y cyfathrebu hyn
- caniatáu i ddysgwyr ddangos eu bod yn gallu defnyddio a chymhwyso sgiliau mathemategol a rhifiadol yn ddiraffferth ac yn fanwl gywir
- cefnogi dysgwyr i ddatblygu a chymhwyso rhesymu sy'n rhesymegol wrth gyfiawnhau a phrofi perthnasoedd rhwng cysyniadau
- darparu cyfleoedd i ddysgwyr ddangos cymhwysedd strategol yn annibynnol pan fyddant yn defnyddio syniadau mathemategol i ddatrys problemau.

Bydd cynnwys y cymhwyster TGAU Mathemateg a Rhifedd (Dyfarniad Dwbl) yn seiliedig ar y cysyniadau mathemategol a rhifiadol canlynol sy'n ffurfio datganiadau o'r hyn sy'n bwysig y Cwricwlwm i Gymru ar gyfer y Maes Mathemateg a Rhifedd²:

- Rhif
- Algebra
- Geometreg a mesurau
- Ystadegaeth a thebygolrwydd

Caiff agweddau ar bob cysyniad eu harchwilio ym mhob uned o'r cymhwyster. Mae hyn yn cefnogi'r datganiad 'mae gwahanol feysydd mathemateg yn hynod o ryng-gysylltiedig a dibynnol ar ei gilydd' sydd wedi'i gynnwys yn yr ystyriaethau penodol ar gyfer y Maes hwn.³

Bydd y cymhwyster hwn yn cefnogi cysylltiadau allweddol gyda Meysydd eraill o'r Cwricwlwm i Gymru, gan gynnwys datblygu llythrennedd ariannol dysgwyr i gefnogi llesiant dysgwyr.

¹ <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/mathemateg-a-rhifedd/egwyddorion-cynnydd/>

² <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/mathemateg-a-rhifedd/datganiadau-o-r-hyn-sy-n-bwysig/>

³ <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/mathemateg-a-rhifedd/cynllunio-eich-cwricwlwm/#specific-considerations-for-this-area>

Strwythur Arfaethedig y Cymhwyster

Uned 1: Mathemateg Ariannol a Chymwysiadau Eraill o Rifedd

Arholiad ysgrifenedig
30% o'r cymhwyster

Uned 2: Mathemateg Heb Gyfrifiannell

Arholiad ysgrifenedig
30% o'r cymhwyster

Uned 3: Mathemateg Cyfrifiannell

Arholiad ysgrifenedig
40% o'r cymhwyster

Nid yw trefn gyflwyno'r unedau yn awgrymu unrhyw hierarchaeth. Felly, nid oes yma awgrym o drefn addysgu benodol.

Gwybodaeth am Unedau

Uned 1: Mathemateg Ariannol a Chymwysiadau Eraill o Rifedd

Pwrpas yr uned hon yw:

- cyflwyno a datblygu dealltwriaeth dysgwyr o destunau a chysyniadau sy'n ymwneud â chyllid a chefnogi'r hyder sydd gan ddysgwyr o ran llesiant ariannol
- caniatáu i ddysgwyr ddefnyddio eu gwybodaeth ac i gymhwyso dulliau mathemategol at gyd-destunau personol, o'r byd go iawn. Mae hyn yn cynnwys y dulliau hynny sy'n ymwneud ag arian a'r gweithle.

Bydd ffocws yr asesu yn yr uned hon ar rai agweddau ar ystadegau ac algebra, ac agweddau rhifedd mesurau a rhif (gan gynnwys cyllid personol), yn unol â'r cynnwys pwnc a amlinellwyd ym Meini Prawf Cymeradwyo Cymwysterau Cymru.⁴

Bydd yr arholiad yn cynnwys cymysgedd o fathau o gwestiynau sy'n targedu AA1, AA2 ac AA3, a bydd y pwysoli ar draws yr amcanion asesu fel a ganlyn:

	AA1	AA2	AA3	Cyfanswm
Uned 1	10.5%	13.5%	6%	30%

Mae'n debygol y bydd yr arholiad yn 1 awr 45 munud o hyd ar yr haen uwch ac yn 1 awr 30 munud o hyd ar yr haen sylfaenol.

Ni fydd opsiynau yn yr uned hon.

⁴ [gcse-mathematics-and-numeracy-approval-criteria.pdf \(qualifications.wales\)](#)

Uned 2: Mathemateg Heb Gyfrifiannell

Pwrpas yr uned hon yw:

- archwilio testunau a chysyniadau y mae'n fwyaf priodol eu hasesu heb gyfrifiannell.

Bydd ffocws yr asesiad yn yr uned hon ar waith rhif, algebra, geometreg a thebygolrwydd heb gyfrifiannell, yn unol â'r cynnwys pwnc a amlinellwyd ym Meini Prawf Cymeradwyo Cymwysterau Cymru.

Bydd yr arholiad yn cynnwys cymysgedd o fathau o gwestiynau sy'n targedu AA1, AA2 ac AA3, a bydd y pwysoli ar draws yr amcanion asesu fel a ganlyn:

	AA1	AA2	AA3	Cyfanswm
Uned 2	19.5%	4.5%	6%	30%

Mae'n debygol y bydd yr arholiad yn 1 awr 45 munud o hyd ar yr haen uwch ac yn 1 awr 30 munud o hyd ar yr haen sylfaenol.

Ni fydd opsiynau yn yr uned hon.

Uned 3: Mathemateg Cyfrifiannell

Pwrpas yr uned hon yw:

- archwilio testunau a chysyniadau y mae'n fwyaf priodol eu hasesu gyda chyfrifiannell.

Bydd ffocws yr asesiad yn yr uned hon ar elfennau o rif, geometreg, mesurau ac algebra y mae angen defnyddio cyfrifiannell ar eu cyfer, ac ystadegau, yn unol â'r cynnwys pwnc a amlinellwyd ym Meini Prawf Cymeradwyo Cymwysterau Cymru.

Bydd yr arholiad yn cynnwys cymysgedd o fathau o gwestiynau sy'n targedu AA1, AA2 ac AA3, a bydd y pwysoli ar draws yr amcanion asesu fel a ganlyn:

	AA1	AA2	AA3	Cyfanswm
Uned 3	20%	12%	8%	40%

Mae'n debygol y bydd yr arholiad yn 2 awr o hyd ar yr haen uwch ac yn 1 awr 45 munud o hyd ar yr haen sylfaenol.

Ni fydd opsiynau yn yr uned hon.

Darpariaeth yr asesiad cyntaf a'r dyfarniad cyntaf

Bydd Unedau 1 a 2 ar gael am y tro cyntaf yn haf 2026 ac yna byddant ar gael yn y gyfres haf a chyfres Tachwedd bob blwyddyn. Bydd hyn wedyn yn rhoi'r hyblygrwydd i ganolfannau benderfynu pa drefn addysgu sydd orau iddynt o ran cynnwys y cymhwyster. Os bydd dysgwyr wedyn yn sefyll un uned cyn y llall, yna pa un o'r unedau hyn i'w sefyll gyntaf.

Bydd Uned 3 ar gael am y tro cyntaf wedyn naill ai ym mis Tachwedd 2026 neu haf 2027.

Byddai Opsiwn 1 yn caniatáu i CBAC ddyfarnu'r cymhwyster am y tro cyntaf ym mis Tachwedd 2026.

Byddai Opsiwn 2 yn caniatáu i CBAC ddyfarnu'r cymhwyster am y tro cyntaf yn haf 2027.

	Uned 1	Uned 2	Uned 3
Opsiwn 1	Ar gael am y tro cyntaf haf 2026	Ar gael am y tro cyntaf haf 2026	Ar gael am y tro cyntaf Tachwedd 2026
Opsiwn 2	Ar gael am y tro cyntaf haf 2026	Ar gael am y tro cyntaf haf 2026	Ar gael am y tro cyntaf haf 2027

Ar ôl y dyfarniad cyntaf, bydd y tair uned ar gael yn sesiynau Tachwedd a'r haf.

Dull haenu

Mae'r Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer TGAU Mathemateg a Rhifedd yn nodi:

12. Rhaid i'r asesiadau ar gyfer y cymhwyster TGAU Mathemateg a Rhifedd (Dyfarniad Dwbl) ganiatáu i Ddysgwyr gyflawni'r graddau canlynol ym mhob haen:
 - 12.1. haen uwch – A*-D
 - 12.2. haen sylfaenol – C-G

Bydd haen uwch a haen sylfaenol ym mhob un o'r tair uned. Bydd CBAC yn caniatáu dull haen gymysg, lle gellir cofrestru dysgwyr am haenau gwahanol ym mhob uned. Bydd hyn yn cynnig cefnogaeth i'r canolfannau wneud y penderfyniad sydd fwyaf priodol wrth gofrestru dysgwyr ar gyfer yr asesiad. Bydd hefyd yn sicrhau nad oes terfyn amhriodol yn cael ei osod ar ddysgwyr wrth iddynt aeddfedu a gwneud cynnydd dros y cwrs dwy flynedd. Mae'r dull hwn yn cefnogi dyheadau'r Cwricwlwm i Gymru i ddatblygu dysgwyr uchelgeisiol.

Ystyriaeth o hydrinedd, ymgysylltiad, dibynadwyedd a dilysrwydd.

Wrth ddatblygu'r amlinelliad hwn o'r cymhwyster arfaethedig, rydym wedi ystyried hydrinedd, ymgysylltiad, dibynadwyedd a dilysrwydd, a hefyd sut i gydbwysu'r ystyriaethau hyn yng nghyd-destun gofynion y Meini Prawf Cymeradwyo.

Mae'r Meini Prawf Cymeradwyo yn ei gwneud yn ofynnol i'r cymhwyster hwn gael strwythur unedol. Penderfynwyd felly y byddai darparu'r arholiadau ar gyfer pob uned ddwywaith y flwyddyn yn rhoi cryn hyblygrwydd i'r canolfannau ledaenu'r baich asesu dros y cwrs o ddwy flynedd. Bydd dysgwyr yn gallu cwblhau unedau pan fyddan nhw'n barod. Drwy ddarparu'r uned hon bob cyfres haf a phob cyfres Tachwedd, gall dysgwyr hefyd ailsefyll unedau yn ystod y cwrs os bydd angen. Mae penderfynu ar amseriad yr arholiadau hyn wedi gwneud yn siŵr bod asesiad y TGAU yn hydrin i'r gyfran honno o'r dysgwyr a fydd am symud ymlaen i Lefel 2 Mathemateg Ychwanegol yn ystod blwyddyn 11.

Mae lleihau nifer yr asesiadau o bedwar yn y TGAU cyfredol (dau yn TGAU Mathemateg a dau yn TGAU Mathemateg-Rhifedd) i dri yn y dyfarniad dwbl newydd yn mynd i'r afael â risgiau gor-asesu dysgwyr ac yn lleihau effaith bosibl asesu ar lesiant dysgwyr. Mae cyflwyno uned sy'n canolbwyntio ar fathemateg ariannol yn darparu cynnwys sy'n berthnasol ac yn bwrpasol ar gyfer dyfodol dysgwyr. Ychwanegir ymhellach at yr ymdeimlad hwn o berthnasedd drwy fframio cwestiynau papurau arholiad yn y categorïau cyd-destunol deniadol a nodir yn adran 14 y Meini Prawf Cymeradwyo. Bydd cynnwys cymysgedd o fathau o gwestiynau ym mhob arholiad hefyd yn cyfrannu at gynnal diddordeb dysgwyr. Bydd caniatáu cofrestru dysgwyr ar haenau gwahanol ar gyfer gwahanol unedau yn sicrhau nad oes terfyn wedi'i osod yn gynnar yn y cwrs a hefyd yn hybu uchelgais dysgwyr.

Credwn fod modd asesu pwrpas a chynnwys y cymhwyster yn ddilys drwy arholiad, a gall cymysgedd o fathau o gwestiynau ein helpu i'w gwneud mor ddilys â phosibl. Pan fyddwn yn datblygu asesiadau, byddwn yn sicrhau bod yr holl dasgau'n targedu'r lluniad perthnasol, eu bod yn gytbwys o ran y cynnwys yr ymdrinnir ag ef dros amser a bod yr eitemau asesu a'r canlyniadau dysgu'n cyfateb. Lle bynnag y bo'n briodol gwneud hynny byddwn yn defnyddio data sydd ar gael i ni o ran sut y gweithredodd yr asesiad. I sicrhau eu bod yn ddibynadwy, byddwn ni'n gwneud yn siŵr bod yr unedau yn targedu'r un pwysoliadau o ran amcanion asesu a bod lefel y galw'n gyson ym mhob cyfres. Datblygir meini prawf marcio a bydd aseswyr yn cael eu hyfforddi o ran sut i'w cymhwyso'n gyson.

Byddwn yn parhau i ystyried hydrinedd, ymgysylltiad, dibynadwyedd a dilysrwydd ym mhob cam o ddatblygu'r cymhwyster.

Atodiad 1

Gwybodaeth allweddol o'r Meini Prawf Cymeradwyo

Daeth y wybodaeth sy'n dilyn yn syth o [Feini Prawf Cymeradwyo - TGAU Mathemateg a Rhifedd \(Dyfarniad Dwbl\)](#) Cymwysterau Cymru - ac mae'n rhaid i'n cymhwyster ni fodloni'r gofynion hyn.

Pwrpas

1. **Rhaid i TGAU Mathemateg a Rhifedd (Dyfarniad Dwbl):**
 - 1.1 gael ei dylunio'n bennaf ar gyfer *Dysgwyr* rhwng 14 ac 16 oed
 - 1.2 adeiladu ar y ddealltwriaeth gysyniadol y mae *Dysgwyr* wedi'i datblygu drwy eu haddysg rhwng 3 ac 14 oed
 - 1.3 cefnogi addysgu a dysgu drwy ddarparu cynnwys ac asesiadau sy'n briodol o eang, heriol, perthnasol a diddorol sy'n gysylltiedig â'r Cwricwlwm i Gymru ac yn ei gefnogi, gan gynnwys ei [bedwar diben](#)
 - 1.4 galluogi *Dysgwyr* i ddatblygu sylfaen gref o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth sy'n cefnogi dilyniant i astudio ôl-16 ac sy'n eu paratoi ar gyfer bywyd, dysgu a gwaith
 - 1.5 darparu gwybodaeth ystyrlon, deg a chywir am gyflawniad *Dysgwyr* mewn pwnc sy'n amlygu'r hyn y mae *Dysgwyr* yn ei wybod, yn ei ddeall ac yn gallu ei wneud

Nodau

2. Rhaid i **TGAU Mathemateg a Rhifedd (Dyfarniad Dwbl):**
 - 2.1. ganiatáu i *Ddysgwyr* archwilio amrywiaeth o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth mewn perthynas â mathemateg a rhifedd
 - 2.2. darparu cyfleoedd i *Ddysgwyr* gael eu hasesu mewn amrywiaeth o gyd-destunau perthnasol ac ystyrlon
3. Rhaid i'r cymhwyster **TGAU Mathemateg a Rhifedd (Dyfarniad Dwbl)** gefnogi *Dysgwyr* i:
 - 3.1. wneud cysylltiadau rhwng gwahanol feysydd mathemateg a meysydd eraill o'r cwricwlwm
 - 3.2. datblygu eu dealltwriaeth gysyniadol wrth esbonio, mynegi a chynrychioli cysyniadau mewn ffurfiau diriaethol a haniaethol
 - 3.3. cyfleu sefyllfaoedd haniaethol a senarios byd go-iawn gan ddefnyddio symbolau ac ymadroddion mathemategol
 - 3.4. datblygu eu gallu i ddefnyddio ffeithiau, technegau a pherthnasoedd mathemategol yn ddidrafferth i ddatrys problemau
 - 3.5. adnabod strwythurau mathemategol sylfaenol o fewn problemau a datblygu strategaethau i'w datrys
 - 3.6. datblygu dealltwriaeth o'r berthynas rhwng cysyniadau mathemategol a'r defnydd o gyfiawnhad a phroffion
 - 3.7. sicrhau sylfaen gref mewn mathemateg ariannol i'w paratoi ar gyfer bywyd a gwaith
 - 3.8. datblygu hyder wrth ddefnyddio a chymhwyso technoleg ddigidol i helpu i ddatrys problemau mathemategol ac ystadegol

Amcanion Asesu

8. Yn yr asesiad o'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sy'n ofynnol yn y cymhwyster, rhaid targedu'r amcanion asesu canlynol i gyfateb i'r pwysoli a nodir, o fewn goddefiant o +/- 5 pwynt canrannol.

AA1	<p>Galw i gof a defnyddio eu gwybodaeth o'r cynnwys penodedig:</p> <ul style="list-style-type: none"> • dangos dealltwriaeth gysyniadol drwy gofio a defnyddio ffeithiau mathemategol, perthnasoedd, cysyniadau a thechnegau • dilyn cyfarwyddiadau uniongyrchol i ddatrys problemau'n cynnwys trefnau arferol yn ddiraffferth 	50%
AA2	<p>Dewis a chymhwyso dulliau mathemategol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • dewis a defnyddio'r fathemateg a'r adnoddau sydd eu hangen i ddatrys problem yn ddiraffferth • dewis a chymhwyso dulliau mathemategol i ddatrys problemau aml-gam, ansafonol neu anstrwythuredig yn ddiraffferth • gwneud penderfyniadau wrth fynd i'r afael â thasg benodol, er enghraifft, gan ddewis sut i arddangos gwybodaeth benodol • cyfathrebu'n fathemategol, gan ddefnyddio amrediad eang o iaith fathemategol, nodiant a symbolau i esbonio rhesymu ac i fynegi syniadau mathemategol yn ddiamwys 	30%
AA3	<p>Dangos cymhwysedd strategol drwy wneud cysylltiadau rhwng gwahanol agweddau ar fathemateg a defnyddio sgiliau mathemategol mewn cyd-destunau anghyfarwydd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • dangos cymhwysedd strategol drwy ddehongli a dadansoddi problemau a chreu strategaethau i'w datrys • dyfeisio strategaethau i ddatrys problemau anrheolaidd neu anghyfarwydd, gan eu torri'n dasgau llai, mwy hylaw, lle bo angen • llunio dadleuon a phroffion gan ddefnyddio rhesymu sy'n rhesymegol a thrwy dynnu casgliadau • dehongli canfyddiadau neu ddatrysiadau yng nghyd-destun y broblem wreiddiol • defnyddio casgliadau wedi'u gwneud o wybodaeth fathemategol i ddod i gasgliadau pellach • myfyrio ar ganlyniadau a gwerthuso'r dulliau a gafodd eu defnyddio 	20%

Cynllun asesu

9. Rhaid i'r cymhwyster **TGAU Mathemateg a Rhifedd (Dyfarniad Dwbl)** fod yn unedol.
11. Rhaid i'r cymhwyster **TGAU Mathemateg a Rhifedd (Dyfarniad Dwbl)** gynnwys haenau.
12. Rhaid i'r asesiadau ar gyfer y cymhwyster TGAU Mathemateg a Rhifedd (Dyfarniad Dwbl) ganiatáu i Ddysgwyr gyflawni'r graddau canlynol ym mhob haen:
- haen uwch – A*-D
 - haen sylfaenol – C-G
13. Rhaid i fanyleb **TGAU Mathemateg a Rhifedd (Dyfarniad Dwbl)** gynnwys y trefniadau asesu canlynol:
- 13.1. rhaid asesu cyfanswm o 100% o'r cymhwyster trwy arholiad allanol, gyda chywres arholiadau ar gael ym mis Tachwedd ac yn yr haf
 - 13.2. rhaid i un uned neu ragor fod ar gael cyn haf Blwyddyn 11 ar gyfer y garfan gyntaf o Ddysgwyr sy'n astudio'r cymhwyster

- 13.3. rhaid i asesiadau gynnwys cymysgedd o fathau o eitemau yn yr arholiadau:
 - 13.3.1. rhaid i rai cwestiynau gynnwys cymhwyso cynnwys yn ei gyd-destun a rhaid i gwestiynau eraill fod heb gyd-destun
 - 13.3.2. rhaid bod cymysgedd o gwestiynau cyfrifiannell a digyfrifiannell hefyd

- 14. Rhaid defnyddio'r categorïau cyd-destunol canlynol yn yr arholiadau i sicrhau bod ystod o gyd-destunau yn cael ei chynnwys:
 - 14.1. cyd-destunau personol a allai gynnwys ond sydd heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:
 - 14.1.1. cyllid personol
 - 14.1.2. iechyd personol
 - 14.1.3. teithio
 - 14.2. gyrfaoedd, cyflogaeth a chyd-destunau sy'n seiliedig ar waith a allai gynnwys ond sydd heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:
 - 14.2.1. cadw amser
 - 14.2.2. cyflogres
 - 14.2.3. cyllid
 - 14.3. cyd-destunau cymdeithasol a allai gynnwys ond sydd heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:
 - 14.3.1. economi
 - 14.3.2. demograffeg
 - 14.4. gallai cyd-destunau gwyddonol, technolegol ac amgylcheddol gynnwys y canlynol, heb fod yn gyfyngedig iddynt:
 - 14.4.1. hinsawdd
 - 14.4.2. meddygaeth
 - 14.4.3. cyfrifiadura